CYFARFOD GYDA'R TÎM CYD-ADOLYGU

Diolch am gytuno i gyfarfod â'r tîm cyd-adolygu tra eu bod yn eich ardal yn edrych ar y modd y mae'r awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau cymdeithasol.

Rydym yn gobeithio eich bod, erbyn hyn, wedi derbyn eich copi o'r daflen sy'n disgrifio'r hyn sy'n digwydd mewn cyd-adolygiad. Mae'r nodyn hwn yn darparu mwy o wybodaeth i'r bobl hynny fydd yn cyfarfod ag aelodau o'r tîm cyd-adolygu.

Y cyfarfod

Ein gwaith ni yw canfod pa mor dda y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn eich ardal chi yn bodloni anghenion defnyddwyr a gofalyddion. Mae hyn yn golygu darparu cyfle i chi ddweud wrthym am:

- yr hyn sydd wedi digwydd i chi;
- yr hyn sydd yn gweithio'n dda;
- yr hyn sydd angen newid,

Mae cyfarfod â chi a defnyddwyr gwasanaeth a gofalyddion unigol eraill yn un ffordd o wneud hyn.

Rydym yn ystyried bod y cyfarfodydd hyn yn rhan bwysig iawn o'r adolygiad, yn enwedig os yw pobl yn teimlo eu bod yn gallu siarad yn agored ac yn onest. Bydd o gymorth os bydd pawb dan sylw:

- yn gwybod beth i'w ddisgwyl;
- wedi paratoi yn dda;
- yn teimlo'n gyfforddus ac wedi'u cynnwys;
- y bodlonir unrhyw anghenion arbennig sydd ganddynt.

Rydym yn gweithio'n agos gyda staff y gwasanaethau cymdeithasol i geisio sicrhau bod hyn yn digwydd. Dylent esbonio wrthych pam y cawsoch chi eich

dewis ar gyfer yr ymweliad hwn gan adolygwr a dylent wneud yr holl drefniadau. Mae croeso i chi gysylltu â ni i drafod y trefniadau hyn.

Beth fydd yn digwydd yn ystod yr ymweliad?

- Mae'r ymweliad yn debygol o barhau am tua 45 munud.
- Efallai y byddwch yn penderfynu eich bod yn dymuno i berthynas, ffrind, gofalydd neu eiriolwr fod gyda chi yn ystod yr ymweliad.
- Byddwn yn dod i'r cyfarfod gyda rhai cwestiynau cyffredinol ynglŷn â'r gwasanaethau cymdeithasol. Byddwn yn dymuno cadarnhau peth o'r wybodaeth yr ydym eisoes wedi ei derbyn. Mae rhestr o'r meysydd y byddwn o bosibl yn dymuno eu trafod, a rhai cwestiynau posibl y gellid eu gofyn, ar ddiwedd y nodyn hwn. Canllaw yn unig yw'r rhestr hon. Nid oes disgwyl i chi gael atebion i'r holl gwestiynau hyn (na hyd yn oed y rhan fwyaf ohonynt!).
- Yn ogystal â gofyn cwestiynau, rydym yn dymuno sicrhau eich bod yn cael cyfle i siarad am y materion sy'n eich pryderu a chyfle i ddweud wrthym am eich profiadau.

Dylech deimlo'n ddigon hyderus i siarad yn agored ac yn onest. Fodd bynnag, mae'n bwysig i chi ddeall nad yw'r hyn yr ydych yn ei ddweud yn gyfrinachol. Efallai y caiff yr hyn a ddywedir yn y cyfarfod ei ddefnyddio yn ein trafodaethau gyda'r awdurdod lleol neu ei ddyfynnu yn yr adroddiad terfynol. Fodd bynnag, ni fyddwn yn enwi unrhyw berson sy'n rhoi gwybodaeth i ni (heblaw ein bod yn bryderus ynglŷn â pheryglon i rywun sy'n agored i niwed).

Mae gennym gymaint o ddiddordeb yn yr hyn sy'n gweithio'n dda ag sydd gennym yn yr hyn sydd angen ei wella.

Dylech ddeall na allwn gyflwyno cwynion unigol ar eich rhan, er y byddwn yn codi materion o bryder gyda rheolwyr y gwasanaethau cymdeithasol.

Gobeithio bod y wybodaeth hon wedi bod yn ddefnyddiol i chi. Edrychwn ymlaen at gyfarfod â chi.

Cod ymddygiad a chwynion

Mae'n ofynnol i'r tîm cyd-adolygu fodloni safonau uchel iawn o ymddygiad wrth wneud eu gwaith. Mae croeso i chi weld y cod ymddygiad sy'n disgrifio'r rheolau hyn.

Os nad ydych yn hapus ynglŷn â'r ffordd yr ymdriniwyd â chi yn ystod yr ymweliad, mae'r daflen cyd-adolygu yn nodi sut y gallwch ddatrys y mater neu wneud cŵyn.

Materion allweddol

Byddwn yn edrych ar ddau fater allweddol:

1. Pa mor dda y caiff anghenion eu bodloni gan y gwasanaethau cymdeithasol ar hyn o bryd?
2. Pa adnoddau sydd gan yr awdurdod lleol er mwyn darparu gwelliannau i ansawdd y gwasanaethau hynny?

Mae hyn yn golygu ymchwilio i ystod eang o feysydd.

1. Bodloni anghenion unigol

Cael gwasanaeth – Pa mor rhwydd oedd hi i chi gael gwybod pa wasanaethau sydd ar gael ac i ofyn am y gwasanaethau hynny?

Asesu – Beth yw eich barn chi am ansawdd yr asesiad a gawsoch? – A gawsoch chi eich cynnwys yn yr asesiad ac a ystyriwyd eich sylwadau? – A fu rhaid i chi roi gwybodaeth i lawer o wahanol bobl?

Y gweithiwr cymdeithasol neu'r rheolwr gofal - A oes gennych chi gynllun gofal? - A yw wedi ei adolygu a'i newid wrth i'ch anghenion newid?

Ystod o wasanaethau – Ydych chi'n credu bod ystod dda o wasanaethau ar gael? – Ydych chi wedi cael dewis ynglŷn â'r modd y bodlonir eich anghenion?

Ansawdd y gwasanaethau – A yw'r gwasanaethau yr ydych yn eu derbyn wedi bod o safon dda? –Ydych chi wedi cael eich trin gyda pharch wrth dderbyn gwasanaethau cymdeithasol?

Amddiffyn rhag niwed – Ydych chi'n credu bod y bobl sydd fwyaf agored i niwed yn derbyn ymateb da?

Annibyniaeth a chynhwysiant cymdeithasol - Ydych chi'n credu bod y gwasanaethau o gymorth i bobl barhau i fod yn annibynnol? - A yw'r

gwasanaethau'n cael eu darparu mewn lleoliadau modern sy'n annog pobl i fanteisio ar gyfleoedd i fyw bywyd yn llawn?

2. Y gallu i ddarparu gwelliannau i'r gwasanaethau

Staffio – Ydych chi'n credu bod y bobl sy'n darparu gwasanaethau cymdeithasol wedi eu hyfforddi'n dda? – A yw'r bobl sy'n gweithio gyda chi wedi gwneud argraff dda arnoch chi? – A fu newid o ran eich gweithiwr cymdeithasol yn aml?

Cael y gorau o'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd – Ydych chi'n credu bod safonau eglur sydd o gymorth wrth warantu gwasanaethau o ansawdd da? – A ofynnwyd i chi am eich barn ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarparwyd neu a drefnwyd?

Cynllunio a phartneriaethau - Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw gynlluniau i newid y gwasanaethau yr ydych yn eu derbyn? - A ofynnwyd i chi sut yr ydych yn meddwl y gellid newid y gwasanaeth er gwell? - Os oes newidiadau ar waith, ydych chi wedi eich cynnwys yn y broses? - Ydy'r gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio'n dda gydag eraill (gan gynnwys y gwasanaeth iechyd, adrannau eraill yr awdurdod lleol, sefydliadau gwirfoddol a'r sector preifat)?

Darparu gwasanaethau – Ydych chi'n gwybod pwy sy'n darparu'r gwasanaethau yn eich cynllun gofal? – A ofynnwyd i chi pa mor dda y mae darparwyr gwasanaethau annibynnol yn bodloni telerau eu contractau? – Ydy'r cydbwysedd yn gywir rhwng y gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol gan yr awdurdod lleol, sefydliadau gwirfoddol a'r sector preifat?

Y defnydd o adnoddau (staff, arian, safle, ac ati) – A ddefnyddir adnoddau yn dda? – A oes gennych brofiad o ddyblygu, gwastraffu, neu ddefnydd gwael o adnoddau?

Arweinyddiaeth a diwylliant yn y gwasanaethau cymdeithasol - Ydych chi'n fodlon bod hon yn adran sy'n 'gallu gwneud' ac sy'n ystyried defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalyddion yn gyntaf?

Swyddogaeth y cyngor – A yw aelodau etholedig yn cymryd gwir ddiddordeb yn y modd y mae'r awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau cymdeithasol? – A oes perthynas dda rhwng y gwasanaethau cymdeithasol ac adrannau eraill yr awdurdod lleol (megis addysg a thai)?

Cyffredinol

Beth sydd wedi gwneud gwir argraff arnoch o ran y gwasanaethau cymdeithasol? – Beth yw'r uchafbwyntiau sydd angen i ni wybod amdanynt? – Ym mha ffyrdd yr ydych wedi eich siomi gan y gwasanaethau cymdeithasol? – Sut y gallent wella pethau i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalyddion?